



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Unpublished

CANLLAWIAU, DOGFENNU

# Gosod terfynau cyflymder o 30mya ar ffyrdd cyfyngedig: canllawiau i awdurdodau priffyrdd

Helpu awdurdodau priffyrdd i benderfynu lle gall terfynau cyflymder o 20mya gynyddu i 30mya.

Cyhoeddwyd gyntaf: 8 Tachwedd 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 15 Gorffennaf 2024

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/pennu-eithriadau-ir-terfyn-cyflymder-diofyn-o-20mya-ar-ffyrdd-cyfyngedig-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

# Cynnwys

1. Cyflwyniad

2. Egwyddorion

3. Pwysu a mesur manteision ac anfanteision

4. Meini prawf

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/pennu-eithriadau-ir-terfyn-cyflymder-diofyn-o-20mya-ar-ffyrdd-cyfyngedig-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Statws

### 1.1.1

Mae'r canllawiau hyn gan Lywodraeth Cymru ar bennu terfynau o 30mya ar ffyrdd cyfyngedig a ffyrdd 20mya eraill yn atodiad i Gylchlythyr Rhif 24/2009 **Pennu Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru**.

Mae'n disodli'r adran sy'n ymdrin â therfynau cyflymder ar ffyrdd cyfyngedig a therfynau a pharthau 20mya, heblaw lle y cyfeirir at rannau penodol.

Mae'r canllawiau hyn yn disodli 'Pennu eithriadau i'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig'.

Mae'n gymwys yn yr un modd i ffyrdd cyfyngedig ac i ffyrdd lle mae terfyn cyflymder o 20mya wedi'i gymhwyso drwy orchymyn yr awdurdod traffig o dan adran 84(1)(a) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ('Deddf 1984').

### 1.1.2

Caiff y canllawiau hyn eu cyhoeddi cyn y cylchlythyr diwygiedig, a fydd yn adlewyrchu'r newid i derfyn cyflymder o 20mya ar gyfer ffyrdd cyfyngedig. Bydd y cylchlythyr diwygiedig yn ymgorffori ac yn disodli'r canllawiau hyn.

### 1.1.3

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/pennu-eithriadau-ir-terfyn-cyflymder-diofyn-o-20mya-ar-ffyrdd-cyfyngedig-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Mae'r canllawiau hyn yn seiliedig ar y System Ddiogel<sup>[troednodyn 1]</sup>, sy'n dadlau o blaid cyflymderau diogel sy'n briodol i nodweddion y ffordd, ei swyddogaeth a goddefiant ffisegol ei defnyddwyr<sup>[troednodyn 2]</sup>.

## 1.2 Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20mya) (Cymru) 2022

### 1.2.1

Gwnaed Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20mya) (Cymru) 2022 gan Weinidogion Cymru ar 13 Gorffennaf 2022 ar ôl i Senedd Cymru benderfynu cymeradwyo drafft o'r Gorchymyn. Daeth i rym ar 17 Medi 2023.

### 1.2.2

Roedd y Gorchymyn yn gostwng y terfyn cyflymder cyffredinol ar gyfer ffyrdd cyfyngedig, a bennwyd gan adran 81(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("Deddf 1984") i 20mya.

### 1.2.3

Fel arfer, mae ffordd yng Nghymru a Lloegr yn ffordd gyfyngedig os bydd ganddi system o oleuadau stryd ar ffurf lampau wedi'u gosod heb fod yn fwy na 200 llath ar wahân i'w gilydd (gweler adran 81 o Ddeddf 1984).

Mae'r rhan fwyaf o ffyrdd cyfyngedig mewn ardaloedd adeiledig.

O dan adran 82(2) o Ddeddf 1984, gall awdurdod traffig gyfarwyddo nad yw

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/pennu-eithriadau-ir-terfyn-cyflymder-diofyn-o-20mya-ar-ffyrdd-cyfyngedig-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

ffordd o'r fath yn ffordd gyfyngedig a gall gyfarwyddo y bydd ffordd nad yw'n ffordd gyfyngedig yn dod yn ffordd gyfyngedig.

Yn rhinwedd adran 84(3) o Ddeddf 1984, nid yw ffordd yn ffordd gyfyngedig os bydd gorchymyn terfyn cyflymder mewn grym mewn perthynas â'r ffordd honno o dan adran 84(1)(a) o'r Ddeddf honno.

## 1.3 Pwrpas

1.3.1 Nod y canllawiau hyn yw cynorthwyo awdurdodau priffyrdd i wneud penderfyniadau rhesymegol ynghylch pennu terfynau cyflymder o 30mya.

Mae'n darparu fframwaith i awdurdodau priffyrdd yng Nghymru (sy'n awdurdodau traffig wrth reoleiddio terfynau cyflymder) asesu a yw'n ddiogel ac yn briodol codi'r terfyn cyflymder i 30mya ar ffyrdd cyfyngedig a ffyrdd eraill lle ceir terfyn cyflymder o 20mya, gan ystyried ffactorau ac amgylchiadau lleol hefyd.

### 1.3.2

Datblygwyd y canllawiau hyn gan ystyried:

- a. Gwaith y panel adolygu: **adroddiad cychwynnol** ac **adroddiad terfynol**.
- b. Adborth o Raglen Wrando 20mya Llywodraeth Cymru.
- c. Mewnbyn gan Gymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru.
- d. Adborth gan awdurdodau priffyrdd, gan ymgorffori safbwyntiau'r cyhoedd a rannwyd â Llywodraeth Cymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/pennu-eithriadau-ir-terfyn-cyflymder-diofyn-o-20mya-ar-ffyrdd-cyfyngedig-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

### 1.3.3

Rydym yn rhagweld mai ar ffyrdd A a B, sydd fel arfer yn brif ffyrdd neu'n ffyrdd strategol y gwneir y rhan fwyaf o'r newidiadau i derfynau cyflymder o 20mya i 30mya.

Gellid pennu terfyn cyflymder o 30mya ar ffyrdd os ydynt y tu allan i ganol dinasoedd, trefi neu bentrefi ac i ffwrdd oddi wrth leoedd sy'n denu llawer o draffig<sup>[troednodyn 3]</sup> cerddwyr a/neu feicwyr lle ceir dwyster tai is (llai nag 20 eiddo fesul km) a lle, os bydd cerddwyr a beicwyr, maent yn cael eu harwahanu oddi wrth draffig cerbydau modur neu y gellid gwneud hynny).

O ganlyniad, nid oes angen ailasesu pob ffordd.

## Troednodiadau

[1] Mae'r System Ddiogel yn seiliedig ar yr egwyddorion:

- Bod pobl yn gwneud camgymeriadau sy'n arwain at ddamweiniau
- Bod gallu'r corff dynol i oddef damwain yn gyfyngedig
- Bod diogelwch ar y ffyrdd yn gyfrifoldeb a rennir i'r rhai sy'n cynllunio, yn adeiladu, yn rheoli ac yn defnyddio ffyrdd a cherbydau a'r rhai sy'n darparu gofal ar ôl damweiniau
- Bod yn rhaid atgyfnerthu pob rhan o'r system ynghyd â llusosi ei heffaith, felly os bydd un rhan yn methu, bydd rhan arall yno o hyd i ddiogelu.

Gallwch [darllen mwy ar wefan RoSPA](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/pennu-eithriadau-ir-terfyn-cyflymder-diofyn-o-20mya-ar-ffyrdd-cyfyngedig-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

[2] Gallu defnyddwyr ffyrdd i wrthsefyll grymoedd damwain heb gael anaf difrifol.

[3] Drwy'r ddogfen gyfan, mae cyfeiriadau at gerddwyr a cherdded yn cynnwys pobl sy'n defnyddio: cymhorthion symudedd fel cadeiriau olwyn a fframiau cerdded ag olwynion; 'cerbydau pobl anabl' gan gynnwys sgwteri symudedd wedi'u cynllunio i'w defnyddio ar y droedffordd, a phobl ag amhariadau corfforol, synhwyraidd neu wybyddol sy'n teithio ar droed.

## 2. Egwyddorion

### 2.1 Datganiad Stockholm y Cenhedloedd Unedig

#### 2.1.1

Yn unol â dyhead Llywodraeth Cymru i gefnogi nodau **Datganiad Stockholm**, dylai cyflymder o 20mya barhau, lle mae cerddwyr a/neu feicwyr a cherbydau modur yn cymysgu "mewn modd rheolaidd a threfnus, ac eithrio lle mae tystiolaeth gref yn bodoli bod cyflymderau uwch yn ddiogel"**[troednodyn 4]**.

### 2.2 Fframwaith y canllawiau

#### 2.2.1

Nod y fframwaith sy'n ymddangos yn y canllawiau hyn yw cefnogi awdurdodau priffyrdd i wneud y canlynol:

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/pennu-eithriadau-ir-terfyn-cyflymder-diofyn-o-20mya-ar-ffyrdd-cyfngedig-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

- a. pwyso a mesur manteision ac anfanteision posibl codi'r terfyn cyflymder, gan ystyried eu dyletswyddau a'u swyddogaethau statudol
- b. asesu ffyrdd yn unol â meini prawf cyffredin (lle, symudiad, nodweddion ffyrdd) sy'n berthnasol wrth bennu'r terfyn cyflymder priodol, o ystyried amgylchiadau lleol
- c. sicrhau bod unrhyw gyfaddawdu rhwng y meini prawf gwahanol, a'r cyfiawnhad dros y penderfyniadau a wnaed yn glir, yn rhesymedig ac wedi'u dogfennu ym mhob achos.

## 2.2.2

Mae gan awdurdodau priffyrdd y pwerau i bennu terfynau cyflymder sy'n addas ar gyfer ffyrdd unigol, o ystyried anghenion ac amodau lleol penodol.

O ystyried natur amrywiol ffyrdd ac amgylchiadau lleol ledled Cymru, nid yw'n ymarferol i'r canllawiau hyn gwmpasu pob senario.

Gall awdurdodau priffyrdd wyro oddi wrth y canllawiau hyn. Mewn achosion o'r fath, fe'u cynghorir i roi cyfiawnhad clir a rhesymedig dros eu penderfyniad.

[4] I'w bennu gan yr awdurdod priffyrdd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/pennu-eithriadau-ir-terfyn-cyflymder-diofyn-o-20mya-ar-ffyrdd-cyfngedig-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).



## 3. Pwyso a mesur manteision ac anfanteision

### 3.1 Cyflwyniad

#### 3.1.1

Wrth ystyried a ellir pennu terfyn cyflymder lleol, dylai awdurdodau priffyrdd bwysu a mesur manteision ac anfanteision posibl codi'r terfyn cyflymder. Er enghraifft, dylai awdurdodau ystyried y cyfaddawdu rhwng anfanteision y cyflymderau uwch, fel mwy o anafusion ac anafiadau mwy difrifol, sŵn a risg ganfyddedig (a all olygu bod pobl yn penderfynu peidio â cherdded, olwyno a beicio, sy'n effeithio ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl), a manteision llai o amser teithio, arbedion economaidd posibl a mwy o effeithlonrwydd.

#### 3.1.2

Wrth bennu terfynau cyflymder, efallai na fydd yn bosibl cyflawni pob amcan, er enghraifft: sicrhau bod y ffordd yn ddiogel i bob defnyddiwr a lleihau amseroedd teithio. Fel y cyfryw, dylid eu hystyried fesul achos, gan ddefnyddio prosesau cyfiawnhau rhesymedig a chyfeirio at dystiolaeth berthnasol. Mewn rhai sefyllfaoedd, gall fod yn ymarferol cysoni amcanion sy'n ymddangos yn groes i'w gilydd, drwy addasu seilwaith ffyrdd. Er enghraifft, **gallai gosod cyfleusterau i gerddwyr a beicwyr** fynd i'r afael â'r naill fater a'r llall.

#### 3.1.3

Dylai awdurdodau priffyrdd hefyd ystyried eu dyletswyddau a'u swyddogaethau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/pennu-eithriadau-ir-terfyn-cyflymder-diofyn-o-20mya-ar-ffyrdd-cyfngedig-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

statudol ehangach, e.e:

- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Dyletswyddau perthnasol yn Neddf Rheoli Traffig 2004 (er mwyn sicrhau bod traffig yn symud yn gynt)
- Deddf Traffig Ffyrdd 1988 (er mwyn atal damweiniau)
- Deddf 1984 (dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd lleol cyhyd ag y bo'n ymarferol mewn perthynas â'r materion a bennir yn adran 122(2) o'r Ddeddf i sicrhau bod traffig cerbydau modur a phob traffig arall, gan gynnwys cerddwyr, yn symud mewn modd cyflym, cyfleus a diogel wrth arfer swyddogaethau o dan Ddeddf 1984 fel pennu terfynau cyflymder).

## 3.2 Manteision cyflymderau uwch

### 3.2.1

Mae ffyrdd yn goridau hanfodol ar gyfer symud, a gall gostyngiadau diogel mewn amseroedd teithio cerbydau arwain at fanteision cymdeithasol, economaidd a gweithredol sylweddol. Er mwyn gwerthuso'r manteision hyn, mae angen ystyried pwysigrwydd y llwybr a'r amser y gellid ei arbed ar deithiau i ddefnyddwyr allweddol.

### 3.2.2

Dylid gwerthuso manteision posibl pennu terfyn cyflymder uwch ar gyfer ffordd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/pennu-eithriadau-ir-terfyn-cyflymder-diofyn-o-20mya-ar-ffyrdd-cyfngedig-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

drwy ystyried y canlynol:

- a. pwysigrwydd y llwybr fel coridor symud ar gyfer traffig cerbydau modur
- b. yr arbedion amser teithiau a ddisgwylir, yn arbennig ar gyfer bysiau, gwasanaethau cludo llwythi a gwasanaethau nad ydynt yn rhai brys (yn benodol, ar gyfer teithiau ambiwlans nad ydynt yn rhai brys, gweithwyr brys nad ydynt yn rhai golau glas fel ymatebwyr cyntaf, a diffoddwyr tân wrth gefn neu weithwyr gofal cymdeithasol), pe byddai'r terfyn cyflymder yn cael ei godi i 30mya.

## 3.3 Anfanteision cyflymderau uwch

### 3.3.1

Dylid gwerthuso anfanteision posibl pennu terfyn cyflymder o 30mya ar gyfer ffordd drwy ystyried y ffactorau canlynol:

- a. effaith ar gerdded, olwyno a beicio yn ddiogel: Bydd codi'r terfyn cyflymder yn arwain at ganlyniadau negyddol ar nifer o ganlyniadau pwysig (e.e. diogelwch, anawsterau i gerddwyr sy'n croesi ffyrdd, y posibilrwydd o atal pobl rhag cerdded, olwyno a beicio, ac a allai arwain at ganlyniadau iechyd corfforol ac iechyd meddwl negyddol), yn enwedig oherwydd y gydberthynas glir rhwng cyflymder gwrthdrawiad ac amllder a difrifoldeb anafusion.
- b. data gwrthdrawiadau: Byddai amllder uchel o wrthdrawiadau ac anafusion (pan oedd y terfyn yn arfer bod yn 30mya) yn lleihau'r cyfiawnhad dros godi'r terfyn. Fodd bynnag, ni ddylai absenoldeb gwrthdrawiadau yn flaenorol gyfiawnhau terfyn cyflymder uwch, oherwydd y gallai cyflymderau uchel fod

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/pennu-eithriadau-ir-terfyn-cyflymder-diofyn-o-20mya-ar-ffyrdd-cyfngedig-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

wedi atal cerddwyr a beicwyr rhag defnyddio ffordd.

- c. asesu risg o wrthdrawiad: Dylid asesu'r posibilrwydd o wrthdrawiadau drwy ystyried nifer y symudiadau cerddwyr a beicwyr, gan gynnwys at ddibenion hamdden, a'r risg o wrthdrawiad, o ystyried llif y traffig. Gellir pennu hyn yn bennaf drwy ffactorau fel a oes cyrchfannau/lleoedd sy'n denu teithiau ar gyfer cerdded, olwyno a beicio, ac a yw'r llwybr yn goridor cerdded, olwyno neu feicio pwysig (fel hawl tramwy cyhoeddus neu lwybr sydd wedi'i nodi ar y Map Rhwydwaith Teithio Llesol).
- d. diogelwch canfyddedig a chydlyniant cymunedol: Gall cyflymderau uwch greu peryglon gwirioneddol a chanfyddedig a all wneud lleoedd yn llai deniadol ac amharu ar gydlyniant cymunedol a rhyngweithio.
- e. ansawdd aer: Gall cyflymderau uwch atal pobl rhag cerdded a beicio gan arwain at fwy o ddibyniaeth ar gerbydau modur preifat (sydd, yn ei dro, yn arwain at lygredd ac ansawdd aer gwael)
- f. llygredd sŵn: Gwerthuso lefelau sŵn gan ystyried patrymau llif traffig, mathau o gerbydau ac agosrwydd eiddo preswyl i'r ffordd.

## 3.4 Crynodeb

### 3.4.1

Er mwyn cydbwysu'r amcanion croes hyn, mae angen mabwysiadu dull cyfannol sy'n ystyried dyletswyddau statudol a fframweithiau deddfwriaethol ehangach.

Yn y bôn, dylai awdurdodau priffyrdd arfer eu disgrisiwn a'u barn i sicrhau bod terfynau cyflymder yn cael eu pennu mewn ffordd sy'n annog diogelwch, effeithlonrwydd a llesiant cymunedol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/pennu-eithriadau-ir-terfyn-cyflymder-diofyn-o-20mya-ar-ffyrdd-cyfyngedig-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

## 4. Meini prawf

### Cyflwyniad

#### 4.1.1

Disgwylir mai ar ffyrdd dosbarthiadol A a B y caiff y terfyn cyflymder ei godi i 30mya yn bennaf. Ar y cyfan, y rhain yw'r prif lwybrau neu'r llwybrau strategol sy'n cario traffig drwy ardaloedd trefol.

#### 4.1.2

Fel arfer, ffyrdd dosbarth C a ffyrdd di-ddosbarth mewn ardaloedd trefol sy'n cario'r rhan fwyaf o draffig lleol ac sy'n gwasanaethu eiddo preswyl yn bennaf. Fel arfer, maent yn llwybrau pwysig i bobl sy'n cerdded, yn olwyno ac yn beicio. Ni ddisgwylir i derfyn cyflymder o 30mya gael ei bennu ar gyfer y ffyrdd hyn. Fodd bynnag, gall awdurdodau benderfynu eu codi yn seiliedig ar y canllawiau hyn ac achos rhesymedig sy'n cyfeirio at ffactorau lleol.

#### 4.1.3

Wrth bennu a ddylid codi terfyn cyflymder i 30mya, dylai awdurdodau priffyrdd ystyried meini prawf amrywiol, gan gynnwys lle, symudiad a nodweddion ffyrdd ac unrhyw amodau lleol ychwanegol yr ystyrir eu bod yn berthnasol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/pennu-eithriadau-ir-terfyn-cyflymder-diofyn-o-20mya-ar-ffyrdd-cyfngedig-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

## Meini prawf lle

### 4.2.1

Ni fyddai 30mya yn briodol ar rannau o ffyrdd lle gallai fod galw mawr am gyfleoedd cerdded, olwyno a beicio, fel:

- a. o fewn taith gerdded o 100m i unrhyw leoliad addysgol (e.e. meithrinfa, ysgol gynradd, ysgol uwchradd, addysg bellach neu addysg uwch)
- b. o fewn taith gerdded o 100m i unrhyw gyfleuster cymunedol
- c. o fewn taith gerdded o 100m i unrhyw gyfleuster meddygol, e.e. ysbytai, meddygfeydd meddygon teulu ac ati
- d. lle mae nifer y mangreoedd preswyl a/neu fanwerthu ar ffryntiad uniongyrchol ffordd yn fwy nag 20 eiddo fesul km.

### 4.2.2

O ran meini prawf 'lle', gellid defnyddio terfynau o 30mya ar y canlynol:

- a. prif ffyrdd neu ffyrdd strategol y tu allan i ganol dinasoedd/trefi/pentrefi neu brif strydoedd.
- b. ffyrdd y tu allan i ardaloedd dwyster uchel ac i ffwrdd oddi wrth leoedd sy'n denu teithiau aml gan gerddwyr a/neu feicwyr [\[troednodyn 5\]](#).
- c. ffyrdd gyda dwysedd isel iawn o ran tai a/neu nifer bach iawn o dai at ei gilydd (llai nag 20 eiddo fesul km).
- d. ffyrdd lle mae mangreoedd preswyl a manwerthu ar un ochr yn unig ac nad oes angen croesi'r ffordd i gyrraedd gwasanaethau na chyfleusterau (neu os

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/pennu-eithriadau-ir-terfyn-cyflymder-diofyn-o-20mya-ar-ffyrdd-cyfyngedig-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

oes croesfannau diogel ar gael neu y byddant ar gael, yn unol â'r **Canllawiau Ddeddf Teithio Llesol**).

## 4.3 Symud

### 4.3.1

O ran meini prawf 'symud', gellid defnyddio terfynau o 30mya ar:

- a. ffyrdd strategol, fel y rhai ar gyfer cludo llwythi neu goridorau bws pwysig, lle ceir tystiolaeth<sup>[troednodyn 6]</sup> bod amseroedd teithiau wedi cynyddu'n sylweddol ers i'r terfyn cyflymder gael ei newid i 20mya
- b. isffyrdd mewn ardaloedd diwydiannol gyda galw isel am draffig cerddwyr neu feicwyr, neu ardaloedd sydd wedi'u hamgylchynu gan dir agored (heb gynnwys meysydd chwaraeon, parciau neu feysydd chwarae y mae angen cael mynediad iddynt drwy'r ffordd dan sylw).

## 4.4 Nodweddion ffyrdd

### 4.4.1

O ran 'nodweddion ffordd', gellid ystyried terfynau o 30mya:

- a. lle ceir cyfleusterau wedi'u harwahanu (o led digonol, yn unol â'r **Canllawiau Ddeddf Teithio Llesol**) ar hyd y ffordd a chroesfannau diogel i gerddwyr a beicwyr (a/neu y gallai'r rhain fod ar gael. Os felly, gellid ystyried newidiadau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/pennu-eithriadau-ir-terfyn-cyflymder-diofyn-o-20mya-ar-ffyrdd-cyfyngedig-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

i'r cyflymder unwaith iddynt gael eu cyflwyno). Bydd angen rhoi ystyriaeth ar wahân i raddau ac ansawdd mesurau diogelwch ar hyd (y llwybr/lôn feicio) ac ar draws y ffordd (byddai angen darparu cyfleusterau diogel ar gyfer cerddwyr a beicwyr sy'n cydymffurfio â **Chanllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol**).

- b. lle ceir galw isel (neu dim galw o bosibl e.e. lleoedd arfaethedig i ddenu teithiau yn y dyfodol) i gerddwyr a beicwyr groesi'r ffordd (e.e. dim ond ar un ochr y mae'r datblygiad).
- c. lle mae'r ffordd wedi'i dylunio er mwyn sicrhau bod geometreg a nodweddion priffyrdd yn cefnogi cyflymder diogel uwch o 30mya.

## 4.5 Asesu terfyn cyflymder

### 4.5.1

Wrth asesu ffyrdd gan ddefnyddio'r meini prawf a nodir uchod, bydd rhai gwerthusiadau yn nodi'n gryf briodoldeb terfyn cyflymder o 20mya neu 30mya. Fodd bynnag, mewn achosion lle mae'r meini prawf yn arwain at ganlyniadau cymysg, gellid rhoi mesurau peirianeg ar waith i gefnogi codi'r terfyn cyflymder o 20mya i 30mya.

### 4.5.2

Os bydd yr asesiad a gynhelir yn cefnogi cadw'r terfyn cyflymder o 20mya ar y cyfan, ond bod tystiolaeth yn dangos yr effeithir yn sylweddol ar lwybrau bws, gan arwain at amseroedd teithio hwy a thoriadau dilynol i wasanaethau neu ardaloedd a wasanaethir, yna dylid ystyried rhoi mesurau blaenoriaethu bysiau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/pennu-eithriadau-ir-terfyn-cyflymder-diofyn-o-20mya-ar-ffyrdd-cyfnygedig-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).



ar waith ar hyd y llwybrau yr effeithir arnynt.

## 4.6 Isafswm hyd terfynau cyflymder

### 4.6.1

Wrth gymhwyso'r canllawiau hyn, dylid osgoi newid terfynau cyflymder yn aml, er mwyn osgoi dryswch ymysg gyrwyr.

### 4.6.2

Fel y nodir yn y cylchlythyr **Pennu Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru** 'yn gyffredinol, ni ddylai isafswm hyd terfyn cyflymder fod yn llai na 600 metr er mwyn osgoi gormod o newidiadau ar hyd y ffordd. Gellir lleihau'r hyd hwn i 400 metr ar gyfer terfynau cyflymder is neu hyd yn oed 300 metr ar ffyrdd â swyddogaeth mynediad lleol yn unig. Nid argymhellir unrhyw beth byrrach.' Nid yw'r isafsymiau hyd hyn yn gymwys i derfynau clustogi, a nodir isod.

## 4.7 Terfynau cyflymder clustogi

### 4.7.1

Dylai awdurdodau priffyrdd werthuso sefyllfaoedd lle gall terfyn cyflymder clustogi fod yn briodol, yn enwedig yn y senarios canlynol:

- a. newidiadau sylweddol mewn terfynau cyflymder wrth ddynesu at gymunedau, lle mae'r gwahaniaeth uwchlaw 20mya a lle nad yw'r

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/pennu-eithriadau-ir-terfyn-cyflymder-diofyn-o-20mya-ar-ffyrdd-cyfngedig-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

cyflymderau dynesu wedi'u cyfyngu gan nodweddion lled, aliniad nac unrhyw nodweddion gweledol eraill.

- b. lleoliadau lle mae aliniad priffordd yn cyfyngu ar y gallu i weld arwyddion terfynol terfynau cyflymder, gan fethu bodloni'r meini prawf a nodir ym Mhenod 3 o'r **Llawlyfr Arwyddion Traffig o bosibl**. Dylid archwilio'r broses o symud arwyddion terfynol terfynau cyflymder hefyd yn y lle cyntaf.
- c. gweithredu ôl-weithredol mewn ardaloedd a nodwyd drwy'r angen am weithgareddau gorfodi rheolaidd, fel cyfraddau gwrthdrawiadau uchel neu gyflymderau gwirioneddol rhy uchel ar ffyrdd 20mya.
- d. newidiadau mewn nodweddion priffyrdd rhwng cymunedau (e.e. newid o ardaloedd gwledig i ardaloedd trefol) lle na all gyrwyr weld nodweddion ffisegol yn rhwydd o bosibl.

#### 4.7.2

Efallai y bydd awdurdodau priffyrdd am ystyried mesurau rheoli cyflymder amgen eraill hefyd er mwyn atgyfnerthu'r neges bod gyrwyr yn cyrraedd terfyn cyflymder is ac annog cydymffurfiaeth.

#### 4.7.3

Dylai awdurdodau priffyrdd arfer eu disgrisiwn a'u barn i benderfynu a yw terfyn cyflymder clustogi yn addas mewn ardal lle mae'r terfyn cyflymder yn gostwng i 20mya o gyflymder uwch, a hyd y terfyn cyflymder clustogi hwnnw yn dibynnu ar gyflymder dynesu a nodweddion arall wrth ddynesu at y terfyn cyflymder o 20mya.

Gall opsiynau eraill, fel triniaethau porth ac arwyddion ymlaen llaw wrth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/pennu-eithriadau-ir-terfyn-cyflymder-diofyn-o-20mya-ar-ffyrdd-cyfyngedig-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

ddynesu, fod yn fwy priodol.

Gall casglu data ar gyflymder ar ôl ymyriad a thystiolaeth sy'n gysylltiedig â diogelwch helpu awdurdodau i gyfiawnhau mesurau ychwanegol ar safleoedd problemus, ynghyd â thystiolaeth arall fel cofnodion o wrthdrawiadau neu bryderon cymunedol.

## Troednodiadau:

[5] [Adolygiad o eithriadau terfyn cyflymder diofyn o 20mya a Canllawiau ar gyfer pennu terfynau cyflymder lleol yng Nghymru](#), adran 6.12.

[6] Bydd Trafnidiaeth Cymru yn darparu gwybodaeth am amseroedd teithiau bws (cyn ac ar ôl newid y ddeddfwriaeth).

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

Drllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/pennu-eithriadau-ir-terfyn-cyflymder-diofyn-o-20mya-ar-ffyrdd-cyfyngedig-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).